| | |
|---|---|
| Enw | Lleisiau Cymru |
| Uwch gynhyrchydd | Gareth Iwan Jones , Sioned Lewis, Cerian Arianrhod, Gruffudd Pritchard |
| Slot | 14:00 ar ddyddiau Mawrth – yr union batrwm cyhoeddi i'w gadarnhau |
| Hyd | 27 munud a hanner * |
| Pris | £500 - £2,200 |
| Briff | Rydym ni am gomisiynu hyd at 3 chyfres (o hyd at chwe rhaglen yr un) a hefyd hyd at 4 rhaglen unigol, y cyfan i'w cyhoeddi dan frand Lleisiau Cymru yn ystod 2026-2027.<br><br>BBC Sounds - Lleisiau Cymru<br><br>Nod Lleisiau Cymru yw denu cynulleidfaoedd newydd at y cynnwys Cymraeg ar BBC Sounds, gan gynnwys cynulleidfa iau, yn ogystal ag annog y gynulleidfa llinol i ddefnyddio mwy o'r platfform. Yn 2025-26 mae'r nifer sy'n gwrando ar gynnwys Cymraeg ar BBC Sounds wedi tyfu tua 9%, a'n bwriad yw parhau i adeiladu ar y twf yma<br><br>Rydym ni'n chwilio am amrywiaeth o syniadau sy'n cynnig rhywbeth sydd ddim ar gael ar Radio Cymru yn llinol ar hyn o bryd. Dylai'r podlediadau:<br><br>• fod yn wahanol o ran pwnc / triniaeth i raglenni Radio Cymru<br>• cynnwys lleisiau a safbwyntiau sy'n adlewyrchu profiadau amrywiol<br>• apelio at gynulleidfa eang, gan gynnwys rhai sydd ddim yn wrandawyr rheolaidd ar gynnwys Cymraeg<br><br>Wrth gynllunio, ystyriwch hefyd lle mae'r bylchau yn ein darpariaeth bresennol ar BBC Sounds os gwelwch yn dda.<br><br>Does dim rheidrwydd i gynnwys enwau adnabyddus, ond mae angen cyflwynydd / wyr sydd ag arddull gynnes ac yn apelio at gynulleidfa eang. |

| | |
|---|---|
| | Rydym ni'n agored i gynigion gydag amrywiaeth o driniaethau a phynciau. Ond rydym ni hefyd yn awyddus i gomisiynu o leiaf un gyfres sydd yn adloniannol, gyda thôn ysgafn neu gomig.<br><br>Fe fyddwn ni yn gofyn i chi ddarparu deunydd hyrwyddo petai'ch cynnig yn cael ei gomisiynu (yn ddelfrydol yn cynnwys fideo).<br><br>*** Newid i drefn comisiynu Lleisiau Cymru ar gyfer 2026-27**<br><br>Yn ogystal â chyhoeddi y podlediad(au) dan frand Lleisiau Cymru rydyn ni yn bwriadu rhoi darllediad llinol i'r penodau sy'n cael eu comisiynu.<br><br>Dyna pam rydyn ni'n gofyn am benodau sy'n 27 munud a hanner o hyd, i osgoi gofyn i chi greu dwy fersiwn. |
| Gwybodaeth gefndirol | Ymhlith y podlediadau sy'n denu cynulleidfa gref ar BBC Sounds ar hyn o bryd mae:<br><br>Lleisiau Cymru: 1 mewn 2 gyda Mari Grug<br>Lleisiau Cymru: Yn Ôl i Midffild<br>Lleisiau Cymru: Ding Dong<br>Lleisiau Cymru: Gwen y Wrach a Fi<br>Rhaglen Sounds Tudur Owen<br>Gwleidydda<br><br>Ac ar gyfer 2026-27 mae'r canlynol eisoes ar y gweill ar gyfer Lleisiau Cymru:<br><br>Ail gyfres o 1 mewn 2 gyda Mari Grug<br>Cyfres o 8 podlediad trosedd wedi cyflwyno gan Nic Parry |